## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (LLANRWST, CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig tra bo profion yn cael eu gwneud ar y rhwystr amddiffyn rhag llifogydd ar gefnffordd yr A470 yn Llanrwst, ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd os bydd cyfnodau o lifogydd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nodir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;

ii) gwahardd reidio beiciau pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nodir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn; a

iii) gwahardd cerddwyr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nodir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y Gorchymyn, a fydd yn weithredol yn ysbeidiol, yn dod i rym ar 31 Hydref 2025. Ni ragwelir y bydd ffyrdd ar gau ar gyfer profion mwy na thair gwaith yn ystod cyfnod o 18 mis, ac fe'u cynhelir rhwng 05:00 a 08:00 o'r gloch. Codir arwyddion gwybodaeth tua 10 diwrnod cyn pob prawf.

Disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol fel y nodir uchod yn unig. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen cynnal profion pellach neu os bydd tebygolrwydd o lifogydd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://www.llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (LLANRWST, CONWY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary whilst testing exercises are carried out to the flood defence barrier on the A470 trunk road at Llanrwst, in the County Borough of Conwy and as a contingency because of the likelihood of danger to the public during potential periods of flooding.

The effect of the Order is to temporarily:

i) prohibit all vehicles from proceeding on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are at Schedule 2 to this Notice;

ii) prohibit the riding of pedal cycles on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are at Schedule 2 to this Notice; and

iii) prohibit pedestrians from proceeding on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are at Schedule 2 to this Notice.

The Order, which will operate intermittently, is expected to come into force on 31 October 2025. No more than 3 testing exercises are anticipated during an 18-month period and would be undertaken between the hours of 05:00 and 08:00. Advance information signs will be erected approximately 10 days prior to each testing exercise.

Although the Order is only expected to operate as specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should further testing be required or in the case of potential flooding circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Lled llawn y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain o barapet de-ddwyreiniol Pont Fawr wrth ei chyffordd â'r B5106, am bellter o 20 metr.

## ATODLEN 2
## Y Llwybrau Eraill

i) Dylai cerbydau, beicwyr a cherddwyr sy'n teithio tua'r de ar yr A470 droi i'r chwith i Heol Dinbych, wedyn i'r dde i Heol Watling i ailymuno â'r A470.

ii) Dylai cerbydau a beicwyr sy'n teithio tua'r gogledd ar yr A470 droi i'r dde i Ffordd Tanyrysgol, mynd ar Ffordd Talybont, wedyn troi i'r chwith i Ffordd Pari i ailymuno â'r A470.

iii) Dylai cerddwyr sy'n teithio tua'r gogledd droi i'r dde i Heol Watling, ac i'r chwith i Heol Dinbych i ailymuno â'r A470.

## SCHEDULE 1
## Temporary Prohibition of Vehicles

That full width of the length of the trunk road that extends in a south-easterly direction from the south-eastern parapet of Pont Fawr, at its junction with the B5106 for a distance of 20 metres.

## SCHEDULE 2
## Alternative Routes

i) Southbound vehicles, cyclists and pedestrians on the A470 should turn left onto Denbigh Street, then right onto Watling Street to re-join the A470.

ii) Northbound vehicles and cyclists on the A470 should turn right onto School Bank Road, proceed onto Talybont Road, then turn left onto Parry Road to re-join the A470.

iii) Northbound pedestrians should turn right onto Watling Street, left onto Denbigh Street to re-join the A470.